



**CYNGOR BRO MORGANNWG  
SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL HOLLTWN,  
Y BARRI CF63 4RU**

**HYSBYSIAD STATUDOL I SEFYDLU MEITHRINFA 60 LLE YN YSGOL GYNRADD  
FAIRFIELD O FIS IONAWR 2018**

Rhoddir hysbysiad yn unol ag isadran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bro Morgannwg yn dilyn ymgynghori â'r bobl ofynnol, yn cynnig gwneud newid wedi ei reoleiddio i Ysgol Gynradd Fairfield, Dryden Road, Penarth, Bro Morgannwg CF64 2RT drwy ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 i 3-11. Bwriedir sefydlu uned feithrin i ddarparu 60 o lefydd meithrin rhan amser i ferched a bechgyn 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd) i dderbyn addysg feithrin rhan amser yn yr ysgol.

Caiff yr ysgol ei chynnal gan Gyngor Bro Morgannwg.

Ymgwymerodd Cyngor Bro Morgannwg â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael yma [www.valeofglamorgan.gov.uk/fairfieldnursery](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/fairfieldnursery)

Bwriedir rhoi'r cynnig ar waith ar 8 Ionawr 2018. Bydd yr ysgol yn parhau yn ysgol gymunedol a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Cyngor Bro Morgannwg fydd yr Awdurdod derbyn. Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i ddsbarth Derbyn yr ysgol yn 4/5 oed yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff y cynnig i agor y feithrinfa ei roi ar waith fydd 45. Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion oedran meithrin 3 i 4 oed yn yr ysgol yn ystod blwyddyn ysgol gyntaf y cynnig i agor y feithrinfa fydd 60 o ddisgyblion rhan amser. Nid yw trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dewis yn ôl gallu (bandio disgyblion)

Capasiti yr ysgol fydd 315 o lefydd. Bydd yr ysgol yn darparu 60 o leoedd meithrin rhan amser a 315 o leoedd ysgol gynradd.

Mae trefniadau teithio Dysgwyr Cymru Gyfan yn caniatáu cymhwyster i dderbyn cludiant i'r ysgol os yw disgybl cynradd o oedran ysgol statudol yn byw fwy na dwy filltir o'u hysgol agosaf neu ei ysgol ddalgylch ddynodedig. Nid yw trefniadau cludiant ysgol, cymhwysedd na hygyrchedd wedi eu heffeithio gan y cynnig hwn.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 22 Mai 2017 gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, Cyngor Bro Morgannwg, Tŷ Provincial, Kendrick Road, Y Barri CF62 8BF neu e-bostio [JMJones@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JMJones@valeofglamorgan.gov.uk)

Llofnod



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau  
24 Ebrill 2017

### **NODYN EGLURHAOL – nad yw'n rhan o'r hysbysiad statudol**

Cynigir bod ystod oedran Ysgol Gynradd Fairfield yn cael ei hymestyn o 4-11 i 3-11 drwy ymgorffori meithrinfa 60 o lefydd meithrin rhan amser (PTE).

Mae adeilad cyfnod sylfaen eisoes yn ei le yn Ysgol Gynradd Fairfield i'w ddefnyddio ar gyfer darpariaeth feithrin.

Bydd meithrinfa yn galluogi hyd at 60 o blant 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed tan iddynt ddechrau mewn dosbarth derbyn) i dderbyn addysg feithrin rhan amser yn Ysgol Gynradd Fairfield.

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Bydd yr ysgol yn darparu 60 o leoedd meithrin rhan amser a 315 o lefydd ysgol gynradd. 45 o leoedd ysgol gynradd fydd y nifer derbyn ar gyfer y dosbarth derbyn. Caiff y meini prawf derbyn ar gyfer y feithrinfa a'r ysgol gynradd eu cyflwyno i rieni yn llyfryn Bro Morgannwg Canllaw Rhieni i Dderbyn yn Ysgolion y Fro.

Nid yw mynychu'r feithrinfa yn gwarantu lle i blentyn mewn dosbarth derbyn yn yr ysgol. Ni fydd gan blant sy'n mynychu'r dosbarth meithrin hawl awtomatig i barhau i dderbyn addysg yn yr un ysgol wrth symud i fyny i ddosbarth derbyn, boed yn byw o fewn neu y tu allan i'r dalgylch. Bydd gofyn i rieni gwblhau ffurflen gais ar gyfer eu dewis ysgol. Lle bydd mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael yn y dosbarth derbyn, caiff lleoedd eu dyrannu gan ddefnyddio meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd y Cyngor sy'n rhoi blaenoriaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC) a phlant yn byw yn nalgylch yr ysgol cyn plant eraill.